Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Llanddarog Ysgol yr Eglwys yng Nghymru
Llanddarog
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA32 8BJ

05/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Llanddarog yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau blaenoriaeth o’u cynllun gwella ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

**Ffocws yr ymweliad**

**Cryfhau systemau asesu a thracio a rhoi adborth effeithiol er mwyn cefnogi’r disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial**

- Mae’r pennaeth wedi adnabod yr angen i gryfhau systemau asesu a thracio disgyblion. Erbyn hyn, mae staff yn cyfarfod yn dymhorol i drafod a monitro cynnydd pob disgybl. Gwneir hyn mewn dull strategol sy’n cyfrannu at fireinio’r ddarpariaeth er mwyn cefnogi’r disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau.
- Mae’r pennaeth wedi gweithredu i gryfhau gweithdrefnau adborth staff i ddisgyblion. Mae wedi trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i athrawon a chynorthwywyr ac wedi cydweithio’n agos ag ysgol arall y mae’n ei harwain.
- Mae athrawon a chynorthwywyr yn darparu adborth llafar buddiol i ddisgyblion yn ystod eu gweithgareddau. Maent yn holi cwestiynau perthnasol sy’n ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion ac yn gwneud iddynt feddwl yn ddwys am y camau nesaf yn eu dysgu.
- Mae athrawon yn defnyddio cod marcio diwygiedig yn effeithiol er mwyn cynorthwyo disgyblion i ddathlu eu llwyddiannau ac i adnabod y meysydd sydd angen eu gwella.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu’r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae'r holl staff yn dilyn y systemau adborth yn gyson ar draws yr ysgol. Trwy hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y trefniadau ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r adborth er mwyn gwella eu dysgu dros amser.

**Cryfhau sgiliau llafaredd Cymraeg bron bob un disgybl er mwyn codi safonau ysgrifennu annibynnol ar draws yr ysgol**

- Mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n fuddiol ar gynllunio datblygiad medrau llafaredd disgyblion ar draws yr ysgol. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau sy'n darparu cyfleoedd strwythuredig i ddisgyblion fagu hyder ac i siarad Cymraeg yn gynyddol gywir.
- Mae arweinwyr wedi cydweithio'n effeithiol â staff er mwyn datblygu cynllun, sef 'Siarad Sionc,' sy'n darparu fframwaith effeithiol ar gyfer datblygu medrau llafaredd y disgyblion yn adeiladol dros amser.
- Mae staff yn fodelau iaith cadarn. Maent yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol, gan holi'r disgyblion yn fedrus, a darparu adborth adeiladol sy'n fuddiol i'r disgyblion wrth iddynt ddatblygu eu gwaith. Maent yn canmol y disgyblion am hunangywiro pan fydd camgymeriadau. Mae'r dull holi ac ateb yn gweithio'n effeithiol ac mae staff yn ei ddefnyddio wrth ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer patrymau iaith penodol, gan ymarfer mewn parau a grwpiau bach.
- Yn ystod gweithgareddau, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol gyda'u ffrindiau, gan fynegi eu hunain yn gynyddol hyderus. Mae staff yn eu hannog i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun, er enghraifft yn yr ardal berfformio lle mae disgyblion yn mwynhau gwneud cyflwyniadau.
- Mae'r Criw Cymraeg yn annog eu cyd-ddisgyblion i siarad Cymraeg, gan ddathlu llwyddiannau yn ystod gwasanaethau ysgol wythnosol. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais ar sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion weld budd mewn siarad Cymraeg o fewn a thu hwnt i'r ysgol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agwedd gadarnhaol at eu dysgu, gan arddel y Gymraeg yn llwyddiannus.
- Ar draws yr ysgol, mae'r ffocws effeithiol hwn ar y llafar yn datblygu hyder y rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu mewn gwahanol gyd-destunau.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6693004

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol